



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar
Ysgol Gymunedol Solfach**

**Solfach
Sir Benfro
SA62 6TS**

Dyddiad yr arolygiad: Mis Medi 2011

gan

Mr Peter Mathias

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

® Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 201X: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Sirol Solfach ym mhentref glan y môr o'r un enw yn Sir Benfro, sef yr Awdurdod Lleol (ALL).

Daw'r disgyblion o ystod eang o gefndiroedd. Daw tua 65% o ardaloedd o dai cymdeithasol o fewn y pentref. Medda'r disgyblion pan y'u derbynnir i'r feithrinfa ystod lawn o sgiliau sylfaenol ac aeddfedwydd. Yn gyffredinol, mae'r safonau yn y sgiliau hyn pan y'u derbynnir yn is na'r rhai a ddisgwylir ac a ganfyddir yn gyffredinol ymysg disgyblion o'r oedran hwn. Mae 80% cyfatebiaeth llawn amser ar y cofrestri, gyda saith ohonynt yn mynychu'r feithrinfa yn y prynhawn yn unig.

Ar hyn o bryd mae 6% wedi eu cofnodi i dderbyn cinio ysgol rhad sydd yn isel o'i gymharu â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Ystyrir bod tua 22% o'r disgyblion gyda rhyw radd o anghenion addysg ychwanegol (AAY). Mae hyn yn uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nid oes gan yr un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Nid oes yr un disgybl â Saesneg fel iaith ychwanegol a Saesneg yw iaith y cartref pob disgybl. Ni waharddwyd yr un disgybl yn y flwyddyn flaenorol. Mae un disgybl dan ofal yr ALL.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn nhymor yr hydref 2005 pan roedd y pennaeth presennol newydd gael ei phenodi.

Yn ystod yr arolygiad, roedd tri cynorthwywyr dosbarth parhaol yn absennol, dau oherwydd salwch ac un ar gyfnod mamolaeth. Cymerwyd eu lle gan gynorthwywyr dosbarth dros dro.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Sirol Solfach yw £3,497, sy'n cymharu gydag uchafswm o £5,769 ac isafswm o £2,995 ar gyfer ysgolion cynradd yn Sir Benfro. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 33ain uchaf o'r 65 ysgol gynradd yn Sir Benfro.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol dau yn uchel iawn ac yn uwch na phob ysgol yn y teulu o ysgolion;
- mae canlyniadau disgyblion yn yr asesiadau athrawon cenedlaethol ar gyfer disgyblion saith oed yn uchel iawn;
- mae'r ddarpariaeth a chefnogaeth ar gyfer disgyblion gydag AAY o safon uchel;
- caiff yr ysgol ei harwain yn dda; ac
- mae safon yr addysgu yn gyson dda

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- safonau wedi gwella'n arwyddocaol dros y pedair blynedd diwethaf;
- mae'r pennaeth a'r staff yn canolbwyntio ar godi safonau;
- mae hunan werthuso yn fanwl ac yn effeithiol;
- mae cynnydd yn datblygu'r iaith Gymraeg a'r Cyfnod Sylfaen wedi bod yn dda;
- mae ymrwymiad cadarn i ddatblygiad proffesiynol parhaus; ac
- mae'r corff llywodraethu yn adolygu cynnydd yn fanwl gywir ac yn gyson yn galw'r pennaeth i gyfrif.

Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r ysgol:

- A1 barhau i wella ansawdd darllen y disgyblion a'r deunyddiau darllen ar gael i wneud hyn;
- A2 ymestyn trefniadau'r ysgol i ddatblygu gallu'r disgyblion i asesu eu dysgu eu hunain; ac i
- A3 gryfhau dealltwriaeth disgyblion o'u rôl fel dinasyddion o'r byd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae nifer o'r disgyblion yn siarad yn siarad yn glir ac yn effeithiol mewn trafodaethau. Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu sgiliau cyfathrebu a rhifedd yn dda. Fodd bynnag, wrth ddarllen, er bod nifer yn darllen yn gywir, mae diffyg mynegiant neu frwdfrydedd. Wrth ysgrifennu, maent yn ysgrifennu'n dda ar gyfer ystod dda o ddibenion.

Mewn rhifedd mae safonau'n dda yn y Cyfnod Sylfaen a gwna'r disgyblion gynnydd da wrth ddysgu sut i rifo ac i adnabod siapau rheolaidd. Yng nghyfnod allweddol 2 mae bron pob un yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu galluoedd datrys problemau a mathemategol.

Mae safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda ar draws yr ysgol ac mae disgyblion yn cymhwyso ac yn ymestyn eu sgiliau'n rheolaidd ac yn gwneud cynnydd da.

Mae safonau mewn siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg yn dda; mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae safonau yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 wedi gwella'n arwyddocaol. Mae perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 nawr yn llawer uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Pan gyfunir canlyniadau Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r ysgol ar y brig o fewn ei theulu o ysgolion ac yn llawer uwch nac ysgolion tebyg yng nghyfnod allweddol 1.

Yng nghyfnod allweddol dau mae'r darlun yn fwy cymhleth. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel 5 uwch yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac yn gyntaf yn y teulu o ysgolion yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae canlyniadau'r disgyblion hynny gydag AAY safodd yr asesiadau yma yn 2010 yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Fodd bynnag, maent yn gwneud cynnydd da. Er hynny, roedd y canlyniadau cyffredinol ar y lefel 4 disgwylidig yn is na chyfartaleddau lleol, cenedlaethol a'r teulu yn ogystal â'r ysgolion rheiny a ystyrir yn ysgolion tebyg. Ni fu patrwm cyson o wahaniaeth yng nghyrraethiad bechgyn a merched ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 na chyfnod allweddol 2

Lles: Da

Mae bron pob un disgybl yn arddangos diddordeb brwd mewn dysgu ac maent yn cyfranogi'n llawn yng ngweithgareddau ysgol. Cynlluniant eu gwaith ar gyfer y tymor mewn cydberthynas gyda staff ac maent yn ymwybodol iawn o'u targedau.

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Sirol Solfach
Mis Medi 2011

Mae staff yn cefnogi'r disgyblion yn dda ac yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Yn eu tro mae'r disgyblion yn falch o'u hysgol iach ac maent yn arddangos agwedd gadarnhaol bob adeg.

Roedd presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd ddiwethaf yn 93% sydd o amgylch y cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol ac ar ddechrau'r gwersi.

Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn dda ac an eiddgar i gymryd rhan mewn trafodaethau. Mae perthynas dda ganddynt gydag athrawon ac oedolion eraill sy'n cynorthwyo. Meddant fedrau cymdeithasol da a dangosant ofal diffuant am ei gilydd.

Mae disgyblion ynghlwm wrth ystod eang o weithgareddau cymunedol. Mae cyngor yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd gan ysgwyddo'i gyfrifoldebau o ddirif.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
------------------------------------------------------------	-----------

Profiadau dysgu: Da

Darpara'r ysgol ystod effeithiol o brofiadau cyfoethog ac atyniadol trwy gyfrwng gweithgareddau cyffrous a heriol. Mae'r disgyblion i gyd, gan gynnwys y rhai gydag AAY, yn mwynhau cwricwlwm eang a chytbwys ac mae ganddynt fynediad da iddo.

Mae'r cynllunio'n drwyadl ac yn arenwi amcanion a chyfleoedd clir ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Canolbwyntia ar ddiddordebau'r disgyblion ac mae'n sicrhau bod dysgu yn adeiladu ar wybodaeth bresennol.

Cynllunia athrawon weithgareddau ar y cyd yn ofalus ar lefel heriol briodol ar gyfer pob disgybl. Yn y Cyfnod Sylfaen cydweddir y cynllunio gyda chyfnod datblygu'r disgyblion, y modd y maent yn dysgu ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

Mae darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn dda. Fe'i defnyddir yn aml gan oedolion yn y gwersi ac mae bron pob un o'r disgyblion yn hoffi ei siarad. Mae ethos Cymreig gadarn ac mae'r disgyblion yn falch o'u diwylliant a'u treftadaeth.

Gwneir defnydd effeithiol o ymwelwyr allanol ac ymweliadau addysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion i fod yn ymwybodol o'r angen o warchod ei hamgylchfyd ac i ddiogelu adnoddau yn dda, ond nid oes ganddynt ond dealltwriaeth gyfyngedig o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel dinasyddion o'r byd.

Addysgu: Da

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Sirol Solfach Mis Medi 2011

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol; mae hyn yn gryfder. Cysylltir yr addysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn agos iawn â'r egwyddorion sy'n greiddiol i drefnu addysg ar gyfer plant o'r oedrannau hyn. Anogir pob un ohonynt i fod yn ymchwilgar ac i ddysgu o brofiadau uniongyrchol. Fel canlyniad i'r gweithgareddau a gynllunnir yn ofalus ac sydd yn adeiladol, gaiff eu creu gan bob un o'r ymarferwyr, mae pob un o'r disgyblion yn canfod eu dysgu yn hwyl ac maent yn eiddgar i ddysgu mwy.

Mae gan athrawon yng nghyfnod allweddol 2 ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion, sy'n sicrhau bod cyflymdra a phwrpas da i'w gwersi. Sefydiant yn glir yr amcanion yr hoffent ymdrin â hwy a'r sgiliau y dylai disgyblion ddefnyddio i ddysgu mwy. Yn y gwersi gorau anogant ddisgyblion i werthuso eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r arfer yma wedi ei ddatblygu'n gyson ar draws y cyfnod allweddol.

Ymhob gwern medda'r athrawon wybodaeth dda o'r pynciau a ddysgant ac yn aml maent yn ysgogi dychymyg disgyblion drwy'r modd mynegiannol y cyflwynir ac y trafodir y pynciau. Ar draws yr ysgol manteisia athrawon yn rheolaidd ar gyfleoedd i ymestyn defnydd y disgyblion o'r Gymraeg.

Mae perthynas dda iawn rhwng yr oedolion i gyd a'r disgyblion ac fel canlyniad mae pob un o'r disgyblion yn ymateb yn hyderus ac yn rheolaidd, gan y gwyddant fod eu syniadau'n bwysig.

Mae athrawon yn cadw cofnodion clir ar gynnydd pob disgybl. Cynlluniant yn systematig iawn gan dracio'r sgiliau a ddysgir gan ddisgyblion a'r cynnydd a wnânt. Mae athrawon yn cwblhau cofnodion yn ofalus, sy'n amlinellu cryfderau, ardaloedd o bryder a'r gefnogaeth a gynigir i ddisgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o brofion safonol ac asesiadau athrawon i osod targedau dysgu unigol ac i gynllunio amcanion dysgu pellach i'r disgyblion.

Trwy gynllunio gofalus a monitro rheolaidd, mae disgyblion gydag AAY yn gwneud cynnydd da ac yn cyfranogi'n llawn yn eu dysgu.

Mae disgyblion yn dechrau bod ynghlwm wrth osod eu targedau eu hunain, ond tan-ddefnyddir strategaethau asesu ar gyfer dysgu. Nid yw sylwadau ysgrifenedig yn dynodi'n ddigon clir yr hyn mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella eu gwaith.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, ofalgar a threfnus, ble mae oedolion a disgyblion yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd.

Mae trefniadau cadarnhaol ar gael i gefnogi iechyd corfforol ac emosiynol a lles disgyblion ac i hybu eu cyfranogiad ymhob gweithgaredd ysgol, yn ogystal ag yn y gymuned leol. Mae hyn yn gwella eu datblygiad personol a'u hunan hyder.

Yn gyffredinol, mae darpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda. Ceir addoli ar y cyd yn ddyddiol sy'n cwrdd ag anghenion cyfreithiol. Mae athrawon yn annog disgyblion i fyfrio ar, ac ysgwyddo cyfrifoldeb

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Sirol Solfach
Mis Medi 2011

am, eu gweithredoedd eu hunain ac i ddatblygu annibyniaeth. Meithrinant gysyniadau am degwch, gonestrwydd a pharch am wirionedd i helpu disgyblion i wneud cyfraniad gwerthfawr i gymdeithas. Codant ymwybyddiaeth am ddiwylliannau eraill.

Cefnogir yr ysgol yn dda gan amrywiaeth eang o asiantaethau allanol sy'n cyfoethogi datblygiad disgyblion. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae gan yr ysgol system glir sydd wedi ei rheoli'n dda ar gyfer dynodi a chwrdd ag anghenion disgyblion gydag AAY. Mae'r adnabod cynnar yn darparu cefnogaeth amserol i'r disgyblion sydd yn benodol ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae'r cydlynnydd AAA, a'r athro cymorth, yn ogystal ag athrawon a chynorthwywyr dosbarth yn defnyddio ystod eang o raglenni priodol i helpu disgyblion. Defnyddir cynlluniau addysgol unigol yn dda i sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Ceir diwylliant o ofalu am ei gilydd a chefnogaeth trwy'r ysgol ac ethos o gynhwysiad a pharch at yr hunan ac eraill.

Mae'r ysgol yn ystyried yn dda gefndir gwahanol y disgyblion ac yn ymdrechu i ddiwallu anghenion pob unigolyn drwy herio stereoteipiau a dangos ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal. Mae mynediad cyfartal gan bob disgybl i'r cwricwlwm. Gwna athrawon pob ymdrech i oresgyn anfantais gymdeithasol.

Cynigia'r ysgol amgylchfyd groesawgar. Defnyddir ystod dda o adnoddau priodol yn effeithiol i fwyhau'r ddarpariaeth o fewn yr ysgol ac yn yr awyr agored ar gyfer pob un disgybl. Mae'r ysgol yn cael ei chynnal i safon dda ac mae mewn cyflwr da. Fodd bynnag, mae neuadd yr ysgol yn rhy fach ac , o ganlyniad, cyfyngedig yw'r cyfleoedd ar gyfer addysg gorfforol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
----------------------------------------------------------------------------	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad pwrpasol a phragmatig i'r holl staff ac mae hi wedi cyflawni llawer i fynd i'r afael ag argymhellion niferus yr arolwg diwethaf. I wneud hyn mae hi wedi datblygu'n llwyddiannus ganolbwyntio cryf a grymus ar yr hyn mae angen i'r ysgol ei wneud i godi safonau, sydd nawr yn cael effaith arwyddocaol.

Mae ymrwymiad clir gan bob athro i gydweithio ac i ddatblygu eu sgiliau proffesiynol ymhellach. Maent yn ymgymryd â'u hamryw ddyletswyddau yn dda ac yn cyfranogi'n llawn wrth werthuso addysgu a dysgu yn eu pynciau.

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Sirol Solfach
Mis Medi 2011

Mae trefniadau arfarnu a rheoli perfformiad yr holl staff yn sicrhau y diwallir eu hanghenion datblygu proffesiynol yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw gofalus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Cyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus ac fe'i hymestynnwyd i gynnwys disgyblion ym mlwyddyn 2. Bu cynnydd da iawn yn datblygu medrau iaith Gymraeg y disgyblion. Fodd bynnag, nid fu ond llwyddiant cyfyngedig wrth ddatblygu medrau disgyblion yn gwerthuso eu dysgu eu hunain. Arweinir y corff llywodraethu'n dda ac mae'n ymwneud yn agos â phennu anghenion yr ysgol. Mae'r cadeirydd yn wybodus am faterion addysgol ac yn ymwelydd rheolaidd â'r ysgol, gan weithio'n agos gyda'r pennaeth. Mae eu rôl wrth alw'r pennaeth yn adeiladol i gyfrif wedi ei sefydlu'n dda.

Gwella ansawdd: Barn

Mae gan yr ysgol broses, hunan werthuso effeithiol sy'n ymglymu'r holl staff , llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth berthnasol i werthuso safonau a darpariaeth Cynnwys hyn craffu ar waith disgyblion, adolygu cynllunio athrawon, arsylwi gwersi a gwrando ar ddysgwyr. Mae'r broses systematig sydd wedi ei chynllunio'n dda yn galluogi staff a llywodraethwyr i adolygu pob agwedd o waith yr ysgol dros gyfnod rhesymol o amser ac mae wedi arwain at welliannau mewn safonau.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen fanwl, sy'n gosod blaenoriaethau'r ysgol fel y'i dynodir trwy'r broses hunan werthuso. Mae'r cynllun yn dynodi'r costau, dyraniad y cyfrifoldebau, meini prawf llwyddiant ac anghenion hyfforddi staff sydd eu hangen i sicrhau gwelliant.

Mae'r ysgol yn datblygu'n dda fel cymuned dysgu. Mae diwylliant o gydweithio rhwng staff i gytuno ar weithdrefnau cynllunio ac i rannu arfer orau. Sefydlwyd cysylltiadau gyda'r grŵp clwstwr lleol i gefnogi gwelliannau mewn darllen.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r holl staff yn gweithio'n dda fel cymuned ddysgu fewnol effeithiol. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid , gan gynnwys ysgolion eraill. Caiff y partneriaethau yma fuddion arwyddocaol yn nhermau gwella safonau a lles disgyblion. Mae cyfathrebu da a lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng partneriaid , gan gynnwys y rheini.

Mae'r ysgol yn galon i'r gymuned ac fe elwa'r disgyblion o gyfrannu at a derbyn ei chymorth cadarn.

Mae'r trefniadau pontio gyda'r ysgol uwchradd yn gadarn ac mae cysylltiadau cryf sydd yn gyd-fuddiol gydag ysgolion lleol eraill, er enghraifft i gytuno ar safonau.

Rheoli adnoddau: Da

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Sirol Solfach
Mis Medi 2011

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i sicrhau y caiff y cwricwlwm ei addysgu'n effeithiol. Mae gan bob aelod o staff gymhwyster priodol ac mae'r cynorthwyyr dysgu yn ddieithriad wedi eu dosbarthu'n dda ac yn chwarae rôl weithredol wrth hyrwyddo dysgu llwyddiannus.

Lleolir athrawon yn dda i wneud y defnydd gorau o'u harbenigedd, amser a phrofiad. Mae'r amser a roir i athrawon i baratoi, trefnu, cynllunio ac asesu wedi ei reoli'n dda ac yn effeithiol.

Er bod gan yr ysgol yn gyffredinol adnoddau da, mae deunyddiau darllen wedi dyddio ac yn gyfyngedig o ran amrywiaeth. Caiff hyn effaith anffafriol ar ansawdd darllen y disgyblion.

Mae gan yr ysgol systemau priodol i sicrhau bod adnoddau cyllidol yr ysgol yn cael eu rheoli'n dda..

O ystyried y safonau a gyflawnir gan y disgyblion, y cynnydd a wnânt ac ansawdd yr addysg a ddarparir, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian

Atodiad 1.

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 1 dros y pedair blynedd diwethaf mae canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2(y lefel disgwylidig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn saith mlwydd oed) wedi gwella cryn lawer o bwynt isel yn 2008 i safle ble eu bod nawr yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Roedd yr ysgol yn 2011 yn gydradd gyntaf yn y teulu o ysgolion ar draws Cymru y perthyn yr ysgol yn y tri phwnc a phan gyfunir y pynciau hyn. Mae pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn aml o'u pwynt cychwyn isel pan gychwynnant yn yr ysgol. Mae canlyniadau ar y lefel 3 uwch hefyd yn uwch ac yn uwch na'r ysgolion lleol a chenedlaethol a phob un ond un o ysgolion y teulu.

Mae canlyniadau yng nghyfnod allweddol 2 yn yr un cyfnod yn fwy cymhleth. O bwynt isel yn 2008 roedd canlyniadau ar lefel 4(y lefel disgwylidig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn unarddeg mlwydd oed) wedi gwella'n arwyddocaol, ond yn parhau i fod yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac yn isel o'u cymharu â'r teulu o ysgolion. Yn 2011, fodd bynnag, mae canlyniadau ar y lefel 5 uwch yn llawer uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac yn gosod yr ysgol yn gyntaf yn y teulu o ysgolion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth a phan gyfunir y pynciau hyn. Mae hyn oherwydd yn y nifer gymharol fach o ddisgyblion a aseswyd cyrhaeddodd pob un y lefel uwch heblaw am leiafrif o ddisgyblion a ddynodwyd fel bod ganddynt anawsterau dysgu sylweddol. Er na chyrraeddodd mo'r rhain y lefel disgwylidig, gwnaethant gynydd da.

Mae tystiolaeth yr arolwg , gasglwyd trwy arsylwadau dosbarth a chraffu ar waith disgyblion, yn cefnogi cywirdeb yr asesiadau hyn.

Yn 2011, o'u cymharu ag ysgolion yr ystyrir i gael cyfran debyg o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, yng nghyfnod allweddol 1 mae'r canlyniadau'n uchel iawn. Yng nghyfnod allweddol 2, oherwydd y canlyniadau isel ar lefel 4 a'r canlyniadau uchel ar lefel 5, gosodir yr ysgol yn is na'r rhan fwyaf o ysgolion tebyg. Ar hyn o bryd gosodir yr ysgol mewn grŵp gwahanol o ysgolion (o dan 8% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim) nac oedd yn flaenorol ble roedd y bandio yn uwch na 8% ac yn cynnwys 16%.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad y bechgyn o'i gymharu â'r merched yn anwadal ac nid oes batrwm cyson yn y cymariaethau yma yng nghyfnod allweddol 1 neu gyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes data digonol ar gyfer perfformiad cymharol y disgyblion hynny sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r rhai gyda rhyw radd o AAY yn gwneud cynnydd da.

Yn gyffredinol mae'r tuedd o welliant yn gadarnhaol.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhaodd dau ddeg pedwar o rieni'r holiadur. Yn gyffredinol, roedd ganddynt farn gadarnhaol iawn o'r ysgol. Cytunodd pob un a chytunodd nifer yn gryf gyda phob un o'r cwestiynau.

Roedd pawb yn fodlon â'r ysgol. Roedd pawb yn meddwl bod eu plant yn hoffi'r ysgol, eu bod wedi derbyn cymorth i ymsefydlu pan ddechreuasant, wedi cyflawni'n dda a'u bod yn gwneud cynnydd da.

Roedd pob rhiant yn meddwl bod disgyblion yn ymddwyn yn dda, bod yr addysgu'n dda a bod gan staff ddisgwyliadau uchel o'u plant. Credant fod y gwaith cartref a osodir yn helpu eu plant i adeiladu ar eu dysgu yn yr ysgol. Roedd staff yn trin eu plant yn deg a meddylant eu bod yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd

Teimla pob un o'r rhieni bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac yn derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer eu hanghenion. Roeddent yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac roeddynt yn teimlo'n gyfforddus i gysylltu â'r ysgol os oedd ganddynt gwestiynau, awgrymiadau neu broblemau. Roeddent yn deall gweithdrefnau'r ysgol ynglŷn â delio gyda chwynion.

Roedd pob rhiant yn meddwl bod yr ysgol yn cynorthwyo eu plant i fod yn aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Credant fod eu plant wedi'u paratoi yn dda ar gyfer symud ymlaen i gyfnod nesaf eu haddysg, bod ystod dda o weithgareddau yn cynnwys tripiâu ac ymweliadau. Roeddent yn meddwl bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Ymatebodd deugain disgybl i'r holiadur. Roedd pawb yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn meddwl bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu cynorthwyo i ddysgu ac i wneud cynnydd. Roedd pawb yn gwybod beth i'w wneud ac i bwy i ofyn am gymorth os roeddent yn canfod eu gwaith yn anodd. Roedd pawb yn teimlo bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn meddwl bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio, yn eu dysgu i fod yn iach a bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac roedd bron pob un yn meddwl bod pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Roedd llawer o'r disgyblion yn gwybod â phwy i siarad os roeddent yn poeni neu'n gofidio ac yn meddwl bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Roeddent yn meddwl bod disgyblion eraill yn eu caniatáu i fynd ymlaen a'u gwaith.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Mr Peter Mathias	Arolygydd Cofnodol
Mrs Branwen Lewelyn Lones	Arolygydd Tîm
Mrs Deris Williams	Arolygydd Lleyg
Mr Phillip Brookman	Arolygydd Cymheiriaid
Mrs Dilwen Smith	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11